MENTAL HEALTH FOUNDATION

# MENTAL HEALTH AWARENESS WEEK

12 - 18 MAY 2025

# DEG FFORDD I FOD YN WEITHGAR YN EICH CYMUNED

O glybiau llyfrau i ddosbarthiadau celf, Swifties i chwaraewyr gemau, grwpiau gwirfoddoli i hwpiau anelu - mae cymuned yn dda ar gyfer ein hiechyd meddwl. Maen nhw'n ein helpu i deimlo ein bod yn perthyn, ein bod yn cael ein cefnogi, a bod gennym bwrpas.

**Dyma ddeg ffordd i gymryd rhan yn eich cymuned a rhoi hwb i'ch iechyd meddwl.**

## 1. EI WNEUD YN DDIFYR

Dewiswch weithgaredd sy'n eich diddori. Gallech ymuno â chlwb neu grŵp sy'n seiliedig ar eich diddordebau.



## 2. EWCH I'R AWYR AGORED

Ewch allan a chrwydro drwy fyd natur am ragor o fuddion iechyd meddwl.

## 3. DEWCH O HYD I BOBL O'R UN ANIAN

Ffurfiwch gysylltiadau gyda phobl sydd â'r un diddordebau a gwerthoedd â chi. Ond, ceisiwch gyfarfod pobl sy'n wahanol i chi, hefyd.



## 4. BYDDWCH YN GAREDIG AT ERAILL

Cysylltwch â'ch cymuned drwy weithredoedd caredig bychain, a fydd o fudd i chi ac i eraill.

## 5. DANGOSWCH EICH GWERTHFAWROGIAD

Gall rhannu canmoliaeth neu ddangos gwerthfawrogiad gryfhau eich perthnasoedd.



## 6. CYSYLLTWCH AR-LEIN

Dewch o hyd i eraill sy'n rhannu profiadau neu ddiddordebau tebyg ar-lein. Cofiwch, dylai cymunedau iach ar-lein wneud i chi deimlo'n ddiogel ac o werth.

## 7. RHOWCH RYWBETH YN ÔL

Mae helpu eraill yn ffordd wych o feithrin cymuned a dangos eich pwrpas.

## 8. GOFALWCH AM EICH CYMUNED LEOL

Cryfhewch eich ymdeimlad o berthyn drwy gymryd rhan yn eich cymuned leol.



## 9. CROESEWCH ERAILL

Rhowch groeso i bobl newydd sy'n ymuno â'ch cymuned, a'u cynnwys.

## 10. DEWCH O HYD I GYMORTH GAN GYFOEDION OS YDYCH YN EI CHAEL HI'N ANODD

Cysylltwch ag eraill sy'n mynd drwy brofiadau tebyg drwy grwpiau cymorth cyfoedion.

MENTAL HEALTH FOUNDATION

**DOD YNGHYD ER LLES IECHYD MEDDWL DA**

**Dysgwch ragor am gymuned ac iechyd meddwl.**

MENTALHEALTH.ORG.UK/MHAW #THISISMYCOMMUNITY